# BWRDD PENSIWN DYDD IAU, 20 GORFFENNAF 2023

**Yn bresennol**:

Eifion Jones a Tony Deakin (Cynrychiolwyr Aelodau)
Sioned Parry, Ned Michael a'r Cyng. Beca Roberts (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**Swyddogion**: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Hywel Eifion Jones yn Gadeirydd y Bwrdd ar gyfer 2023-24**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Mrs Sioned Parry yn Is-gadeirydd y Bwrdd ar gyfer 2023-24**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau) a'r Cyng. Stephen Churchman (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau)

Croesawyd Ned Michael a Tony Deakin i'r cyfarfod fel aelodau newydd.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd Mawrth 6ed 2023 fel rhai cywir.

## 7. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth

i ben Mawrth 31ain 2023.

Adroddwyd bod y cyfrifon yn dilyn ffurf statudol CIPFA gyda'r canllawiau yn dehongli beth sydd i'w gyflwyno yn y cyfrifon. Nodwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un brysur i'r gronfa gyda'r prisiad, gosod dyraniad asedau strategol newydd, a datblygiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)
Tynnwyd sylw at Gyfrif y Gronfa gan nodi bod ychydig o amrywiadau wrthi i'r cyfraniadau a'r buddion gynyddu wedi i weithwyr dderbyn codiadau cyflog a hefyd wrth i'r pensiwn gynyddu gyda CPI. Ategwyd bod lleihad yn y costau rheoli o'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd costau Partners, sy'n gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar berfformiad

Amlygwyd bod lleihad yng ngwerth farchnad y gronfa o £13.6 miliwn a hynny wedi blwyddyn heriol gydag effaith rhyfel Wcráin a chwyddiant uchel yn ffactorau amlwg. Ymddengys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a dechrau'r flwyddyn ariannol newydd fod gwerth y gronfa wedi dechrau codi unwaith eto.

Nodwyd, yn dilyn cwblhau'r archwiliad bydd y fersiwn derfynol yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth i'r Pwyllgor Pensiynau

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag Incwm Buddsoddi a'r ffaith bod ffigyrau 2021/22 yn nodi £280,000 mewn Isadeiledd tra bod ffigyrau 2022/23 yn nodi £0, nodwyd mai'r rheswm dros hyn oedd bod buddsoddiadau/gweithgareddau Rheolwyr Buddsoddi yn dod i ben ar gyfnodau gwahanol.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 8. PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi i ddiweddaru'r Bwrdd o'r gwaith monitro chwarterol (a blynyddol) sydd yn cael ei wneud gan y Panel Buddsoddi ar berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Adroddwyd y gwelwyd gwerth y farchnad wedi lleihau rhywfaint a'r Gronfa wedi sefydlogi ar £2.7 biliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Nodwyd bod perfformiad y Gronfa dros y flwyddyn yn -1.5% a hynny o fewn blwyddyn heriol gydag effeithiau rhyfel Wcráin a chwyddiant uchel, ond amlygwyd bod perfformiad 3 mis wedi dechrau gwella, a hynny yn parhau yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. Ategwyd, bod sefyllfa fel hyn yn gyffredin i gronfeydd cynlluniau pensiwn llywodraeth leol, a bod perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i fod o fewn chwartel uchaf cronfeydd Prydain.

Cyfeiriwyd at berfformiad y Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti gan nodi er bod perfformiad 3 mis wedi bod yn bositif bod tystiolaeth o berfformiadau negyddol dros y flwyddyn a hynny yn amlwg oherwydd perfformiad y Marchnadoedd Datblygol oherwydd bod marchnadoedd Tsiena yn arafach na'r disgwyl yn ail agor yn dilyn cyfyngiadau covid-19. Yng nghyd-destun perfformiad Rheolwyr Incwm Sefydlog nodwyd eu bod hwythau hefyd wedi cael cyfnod anodd hefyd gydag ansefydlogrwydd cyfraddau llog a chwyddiant ledled y byd.

Wrth drafod Rheolwyr Eiddo, amlygwyd bod y sector wedi wynebu cyfnod heriol gydag ansicrwydd defnydd hirdymor adeiladau swyddfa a siopau stryd fawr. Mewn ymateb, adroddwyd bod y cronfeydd mae'r Gronfa yn buddsoddi â hwy, yn tueddu

o arall gyfeirio at adeiladau fel warws Amazon a siopau tu allan i drefi, mewn ymgais i reoli'r newid er budd y gronfa. Yng nghyd-destun Grwp Partners (sydd yn gyfrifol am reoli buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd y Gronfa, nodwyd ei bod yn anodd mesur eu perfformiad mewn cyfnod penodol oherwydd oediad amser (time lag) ac felly nid yw’r gwir berfformiad yn cael ei fesur hyd nes y bydd y gronfa wedi cau yn derfynol. Er hynny ategwyd bod Partners yn perfformio yn dda ac nad oedd Hymans wedi codi pryderon ynglŷn â’u ffigyrau.

Nodwyd bod perfformiad y Gronfa yn cael ei asesu’n rheolaidd er mai buddsoddi tymor hir yw’r amcan. Amlygwyd bod perfformiad tair blynedd wedi bod yn un safonol iawn a’r Gronfa yn y 3ydd safle allan o holl gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol, mewn sefyllfa gref. O ganlyniad, ac yn dilyn y prisiad teirblynyddol lle, ar 31 o Fawrth 2022 roedd y gronfa wedi ei gyllido i 120%, cafwyd cyngor gan Hymans i leihau risg y gronfa. Golygai hyn y bydd lleihad o 10% mewn ecwiti'r gronfa gyda’r arian yn cael ei fuddsoddi mewn cronfeydd dyled preifat, isadeiledd a chredyd byd-eang drwy PPC. Y bwriad yw gweithredu’r newid yma dros y 12 mis nesaf, er yn ddiweddar derbyniwyd gwybodaeth bod lefel cyllido’r Gronfa wedi cynyddu ymhellach i 160% ac felly bydd angen cynnal trafodaethau gyda Hymans i adolygu lefelau’r ecwiti ymhellach.

Diolchwyd am yr adroddiad a llongyfarchwyd y swyddogion ar ganlyniad perfformiad tair blynedd gyda’r gronfa yn y 3ydd safle (allan o 100) - hyn yn newyddion calonogol iawn.

Mewn ymateb i sylw o’r bwriad i fuddsoddi mewn eiddo nad yw ar y stryd fawr, nodwyd bod y sefyllfa ‘draddodiadol’ wedi newid ers cyfnod covid-19 a bod rheolwyr buddsoddi bellach yn edrych ar y ‘math’ o eiddo i fuddsoddi ynddo (e.e., tai yn hytrach na siopau). Ategwyd bod PPC yn gweld cyfle da yma i adolygu’r portffolio eiddo yn ei gyfanrwydd gan ystyried cyfleoedd yng Nghymru neu eiddo rhyngwladol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi’r wybodaeth**

## 9. ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y BWRDD PENSIWN AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA

A (draft) report was submitted by the Investment Manager detailing the activities of the Pension Fund during the year ending on 31 March 2023. The report included details about the Board's constitution, the Board's function and work, Cyflwynwyd adroddiad (drafft) gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gyfansoddiad y Bwrdd, swyddogaeth a gwaith y Bwrdd, y cynllun gwaith ynghyd a hyfforddiant y bu i’r Aelodau fynychu dros y flwyddyn.

Amlygwyd y byddai’r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i’r Rheolwr Buddsoddi erbyn 31-07-23

Diolchwyd am yr adroddiad.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth drylwyr o waith y Bwrdd.
- Angen gwirio presenoldeb Sioned Parry
- Bod y cynllun gwaith yn fanwl - adroddiadau a gyflwynwyd i’r Bwrdd ar

benawdau'r cynllun gwaith i'w gweld ar wefan y Cyngor

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 10. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar amrywiol brosiectau ynghyd a rhestr o'r heriau yr oedd yr Uned Weinyddu yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys dyluniadau ar gyfer logo newydd ynghyd a syniadau ar gyfer deunydd marchnata y gallai'r Gronfa Bensiwn ei ddefnyddio i hyrwyddo'r cynllun.

Cyfeiriwyd at lwyddiant a phoblogrwydd 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan amlygu bod nifer o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol gydag oddeutu 20,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yma. Nodwyd yn ddiweddar y cyflwynwyd opsiwn i bensiynwyr y Gronfa bensiwn weld eu slipiau pensiwn misol ar-lein gyda hyn yn arwain at y bwriad o beidio gorfod anfon slipiau papur i bensiynwyr newydd i'r dyfodol. Bydd fersiwn newydd o'r system yn cael ei gyflwyno yn ystod 2023/24 a bydd opsiynau pellach yn cael eu datblygu i'r aelodau.

Trafodwyd canlyniadau'r rheoleiddiwr pensiynau (mesur data) lle adroddwyd cynnydd o 4% o'r flwyddyn flaenorol, ar ganlyniadau data penodol y cynllun sydd yn galonogol iawn o ystyried bod nifer aelodau a heriau gwaith o ddydd i ddydd wedi cynyddu.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ymweld â stondin y Gronfa Bensiwn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Bydd hwn yn gyfle gwych i rannu gwybodaeth am y cynllun.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Llongyfarch y tîm ar ganlyniadau gofal cwsmer arbennig
- Eu bod yn hoff o'r logo newydd
- Croesawu defnydd o gomisiynu cynllunydd graffeg o'r Adran TG

Mewn ymateb i sylw, oherwydd effeithiau'r cyfnod clo a chyflogi staff newydd, os mai'r rheswm am gynnydd mewn perfformiad yw sefydlogrwydd o fewn yr adran, nodwyd mai cyfuniad o'r ffactorau hyn oedd gwelliant mewn perfformaid er yn adrodd bod gwneud defnydd llawn o system gyfrifiadurol a staff ychwanegol hefyd wedi cyflymu'r gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â bwriad gan CIPFA i osod meincnod safonol i bob Cronfa i fesur eu perfformaid, derbyniwyd bod anghysondeb ymysg Cronfeydd mewn cofnodi perfformaid ac mai delfrydol fyddai gosod yr un meincnod i bawb - byddai'r gymhariaeth yn ddefnyddiol i'r holl gronfeydd.

Derbyniwyd y sylw y gall awtomeiddio data wrth i fwy o aelodau arwyddo ar lein fod yn arf i wella'r perfformiad ymhellach. Ategwyd y byddai cyflwyniad o'r Dashfwrdd Pensiynau yn 2026 hefyd yn fodd o ddarparu data cenedlaethol fydd yn sicrhau cywirdeb pellach.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 11. Y RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24. Nodwyd bod y rhaglen yn cynnwys materion a nodwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a materion yn codi. Amlygwyd y gellid ychwanegu materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn i'r rhaglen yn unol ar angen ynghyd ag unrhyw faterion / syniadau fydd yn codi gan aelodau wedi sesiynau hyfforddi a / neu ddigwyddiadau perthnasol.

Awgrymwyd y pwnc canlynol i'w gynnwys ar y rhaglen waith:

- Diweddariad / cynnal sgyrsiau ar ddatgarboneiddio - a yw amserlen y gronfa yn cyd-fynd ag amserlen y Cyngor o fod yn sero net erbyn 2030? Angen gweld Gwynedd yn arwain y ffordd gyda'r materion hyn.

Mewn ymateb i'r awgrym, nodwyd nad oedd y Gronfa Bensiwn o dan reolaeth Cyngor Gwynedd ac felly nid oedd yn rhannu'r un amodau. Cyfeiriwyd at Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa Bensiwn fydd yn cael ei adolygu yn flynyddol gyda chyflwyniad i'r Bwrdd cyn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau - pwysleisiwyd mai'r Pwyllgor fydd yn rhoi sêl bendith ar y polisi ac nid y Bwrdd. Adroddwyd bod y PPC wedi cyhoeddi Polisi Risg Hinsawdd yn ddiweddar ac y byddai'r polisi hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau yn yr Hydref ynghyd a diweddariad ar waith Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ategwyd pe byddai diddordeb mewn maes penodol byddai modd cynnwys hyn yn yr adroddiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.05 y.h.

**CADEIRYDD**